OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 961

## Gorchymyn Cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd 2007

**Teitl, Cychwyn a Dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd 2007 a daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Yn y Gorchymyn hwn mae i'r term "is-deddfwriaeth" yr un ystyr a roddir i'r term "subordinate legislation" yn Neddf Dehongli 1978(**1**).

**Rhychwant**

**2.** Mae gan addasiad o ddeddfiad gan y Gorchymyn hwn yr un rhychwant â'r deddfiad a addaswyd.

**Addasiadau o Ddeddfau Seneddol**

**3.** Mae'r deddfiadau a nodwyd yn yr Atodlen yn cael eu diwygio fel y nodir yno.

**Addasiadau o gyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd mewn is-ddeddfwriaeth**

**4.** Bydd pob cyfeiriad mewn is-ddeddfwriaeth at Awdurdod Iechyd neu Awdurdodau Iechyd yn cael eu trin fel cyfeiriadau at Fwrdd Iechyd Lleol neu Fyrddau Iechyd Lleol fel y bo'n briodol, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

20 Mawrth 2007

(**1**) 1978 (p.30).
(**2**) 1998 c. 38.